## Tasg 1

# FFARWÉL HAF

1. Pam mae’r gwenoliaid yn eistedd mewn rhes? Arwydd o beth ydy hyn yn ôl y bardd?

2. Ym mha fis, yn eich barn chi, mae’r bardd yn ysgrifennu’r gerdd? Pam rydych chi’n dweud hyn?

3. Beth yw’r gwahaniaeth rhwng y traeth pan mae’r bardd yn ysgrifennu’r gerdd a’r traeth yn yr haf?

4. Pa dechneg mae’r bardd yn ei defnyddio pan mae’n sôn am yr adar, yr awel a’r nant. Rhowch ddyfyniadau i brofi eich ateb.

5. Beth mae’r gair ‘sbo’ yn ei ddweud wrthych am sut mae’r bardd yn teimlo?

**HAF BACH MIHANGEL**

1. Rhowch deitl byr i bob paragraff.

   i)

   ii)

   iii)

   iv)

   v)

   vi)

   vii)

2. Rhowch √ wrth y sylwadau cywir a x wrth y rhai anghywir.

i) Mae 'Haf Bach Mihangel' yn cyfeirio at dywydd braf yn yr haf.

ii) Mae'r frwydr rhwng Sant Mihangel a'r ddraig yn symbol o frwydr rhwng y da a'r drwg.

iii) iii) Cafodd capeli eu codi ble'r oedd sant wedi ymddangos

iv) Y Frenhines Elisabeth yr Ail oedd y cyntaf i fwyta gŵydd ddydd Sant Mihangel.

v) Ni ddylid casglu na bwyta mwyar duon ar ôl Medi 29ain.

vi) Cafodd y Diafol ei luchio o'r nefoedd am iddo boeri ar fwyar duon.

vii) Doedd yr Ŵyl Mihangel gwreiddiol ddim ym mis Medi.

3. Yn y Gymraeg mae gennym eirfa eang i ddisgrifio'r tywydd. Gwnewch ymchwil i ddarganfod mwy o ddywediadau ac eglurwch hwy.

| | |
|---|---|
| **GLAW** | |
| Bwrw fel o grwc | Tywallt y glaw |
| Smwclaw | Glaw mân |
| Pigo bwrw | Glaw mân |
| | |
| | |
| **GWYNT** | |
| Gwynt yn chwipio | cryf |
| | |
| | |
| | |
| **EIRA,RHEW,NIWL** | |
| Pluo eira | Eira mân, ysgafn |
| | |
| Niwl dopyn | Niwl trwchus |
| | |
| Rhewi'n gorn | Rhew caled |
| | |
| **HAUL** | |

| Haul llwynog | Haul slei |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

4. Gyda'ch partner ysgrifennwch sgwrs yn trafod y tywydd. Gellwch ddefnyddio'r dywediadau uchod. Gellwch ddechrau fel hyn os y dymunwch.

   Olwen: Wel, wir, dw i wedi cael llond bol ar y tywydd yma! Glaw, glaw, o fore gwyn tan nos bob dydd!

   Wil: Mis Ebrill ydy hi cofia ac mae'r ffarmwrs yn falch o'r glaw! Glaw tyfu maen nhw'n ei alw fo. A dwyt ti ddim isio gormod o haul – haul gwanwyn yn waeth na gwenwyn meddan nhw!